# Cyn-aelodau o staff cymorth Ieuan Wyn Jones

10 Chwefror 2014

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 7 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

*O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, nifer y staff a gyflogwyd gan Ieuan Wyn Jones, y cyn Aelod Cynulliad dros Ynys Môn, ar ddiwrnod ei ymddiswyddiad (rwy'n deall, ni fyddwch yn rhoi enwau unigol ac nid wyf yn disgwyl ichi wneud hynny) ac unrhyw dâl dileu swydd a dalwyd iddynt.*

*Hynny yw, aelod staff #1 = £600, aelod staff # 2 - £1000 ac yn y blaen.*

*Sawl un o'r unigolion y talwyd cyfandaliad dileu swydd iddynt sydd wedi'u cyflogi ers hynny, naill ai ar gontract dros dro neu gontract parhaol, gan) Rhun ap Iorwerth AC a b) unrhyw Aelod Cynulliad neu grŵp plaid arall yn y Cynulliad.*

Byddwn yn delio â'r ddwy elfen o'r cais yn eu tro.

O ran y rhan cyntaf o'ch cais, mae Aelodau'r Cynulliad yn gyflogwyr o safbwynt eu staff cymorth a chaiff taliadau eu gwneud iddynt o dan y penderfyniad cyfredol ar gyfer cyflogau a lwfansau'r Aelodau.  Rhoddir manylion ynghylch y taliadau a wneir mewn sefyllfa dileu swydd ym mharagraff 7.11 o'r ddogfen hon, fel y nodir isod.

> ***Taliadau dileu swydd i staff sy'n cael eu talu o'r Lwfans Gwariant Staffio***
> *Mae gan Aelod hawl i wneud cais am ei gostau wrth roi taliadau dileu swydd i staff cymwys os yw'r Aelod yn peidio â bod yn Aelod yn y Pedwerydd Cynulliad (neu yn unrhyw Gynulliad dilynol) am unrhyw reswm. Telir y symiau hyn o'r cronfeydd canolog (ac ni chânt eu tynnu o'r Lwfans Gwariant Staffio).*


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email: Buddug.Saer@cymru.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

*I fod yn gymwys, mae'n rhaid bod gan y staff o leiaf ddwy flynedd o wasanaeth gyda'r Aelod ar y dyddiad y maent yn peidio â chael eu cyflogi gan y cyn Aelod, ac mae'n rhaid iddynt beidio â bod yn hunangyflogedig. Cyfrifir taliadau dileu swydd ar sail yr hawliad statudol o dan y ddeddfwriaeth gyflogaeth gyfredol, wedi'i uwchraddio 50 y cant.*

Mae'r wybodaeth a geisir ynglŷn â chyn-aelodau o staff Ieuan Wyn Jones yn cynnwys data personol at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 ac yn dod o fewn cwmpas yr eithriad "gwybodaeth bersonol" yn adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf).

Mae nifer y bobl yr effeithir arnynt mor fach, byddai datgelu'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani nid yn unig yn golygu y gellid adnabod y personau dan sylw, ond byddai hefyd yn golygu y gellir dod i gasgliadau am eu bywydau preifat. O dan yr amgylchiadau, ni allwn fodloni ein hunain y byddai'n deg i ddatgelu'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani. Felly, rydym yn ystyried bod y wybodaeth yn eithriedig o dan adran 40(2) o'r Ddeddf.

Fodd bynnag, rydym yn gallu dweud wrthych fod y nifer a oedd yn derbyn taliad o dan baragraff 7.11 o'r Penderfyniad yn llai na chwech; bod y symiau a dalwyd wedi'u cyfrifo yn unol â'r cyfrifiad yn y paragraff hwnnw; a daeth i gyfanswm o £23,625. Mae rhesymeg bellach am hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

O ran ail ran eich cais, mae un o'r cyn aelodau o staff wedi cael ei ailgyflogi gan Aelod Cynulliad. Cydsyniodd y person hwnnw i ddatgelu' r wybodaeth benodol hon.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad**

Mae rhan cyntaf eich cais yn gofyn am y tâl dileu swydd a dalwyd i gyn-aelodau o staff Ieuan Wyn Jones.

Mae'r wybodaeth hon yn dod o dan y diffiniad o wybodaeth bersonol yn Neddf Diogelu Data 1998 ("Data which relate to a living individual who can be identified …from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller"). Felly mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Ddeddf") lle byddai datgelu'r wybodaeth yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Caiff yr egwyddor sy'n berthnasol yn yr achos hwn ei hamlinellu isod.

Mae'r egwyddor diogelu gwybodaeth gyntaf, fel y nodir yn Atodlen 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998, yn nodi:

> "Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met."

Wrth benderfynu a fyddai datgeliad yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau datgelu'r wybodaeth hon, disgwyliadau rhesymol yr unigolyn, a'r cydbwysedd i'w daro rhwng hawliau'r unigolyn ac unrhyw fudd dilys mewn perthynas â datgeliad. Ein casgliad yw y byddai'n anheg i ddatgelu'r wybodaeth. Ceir crynodeb o'n trafodaethau isod.

Byddai datgelu'r taliadau a wnaed i'r unigolion yn ymwneud â'u bywyd preifat ac i'w hamgylchiadau ariannol personol. Ni fyddai gan yr unigolyn ddisgwyliad rhesymol y byddai manylion o'r fath yn cael eu datgelu. Nid oedd eu rolau yn rhai uchel na'n rhai lle byddent yn delio â'r cyhoedd, er enghraifft o'u cymharu ag Aelodau'r Cynulliad fel cynrychiolwyr etholedig. Byddai datgeliad, yn ein barn ni, yn achos o ymyrraeth anghyfiawn yn eu preifatrwydd.

Rydym yn cydnabod bod yna fudd dilys mewn gwybod bod cyrff cyhoeddus yn gwario arian cyhoeddus yn ddoeth ac yn briodol. Rydym yn ystyried bod y diddordeb hwn yn cael ei fodloni oherwydd bod y Penderfyniad yn nodi sut y cyfrifir symiau i'w talau, y meini prawf cymhwyso a'r bandiau cyflog i staff cymorth.

Er gwaethaf ein barn ynghylch sicrhau tegwch, aethom ymlaen i drafod Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 1998. Un o'r amodau yn Atodlen 2 yw bod yr unigolyn yn caniatâu datgeliad. Gwnaethom gysylltu â'r unigolion dan sylw ac roeddent yn gwrthwynebu datgelu'r wybodaeth gan nodi y byddai'n achosi trallod ac ymyrraeth direswm yn eu bywydau personol.

Yr unig amod arall yn Atodlen 2 a fyddai, o bosibl, yn caniatáu inni ddatgelu gwybodaeth (lle nad oes cydsyniad) yw Amod 6, sy'n caniatáu prosesu data personol os bodlonir y canlynol:

> "The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

1. Rhaid bod yna fudd cyhoeddus dilys mewn datgelu'r wybodaeth;
2. Rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; a
3. Rhaid sicrhau nad yw'r datgeliad yn achosi ymyrraeth ddiangen yn hawliau, rhyddid a buddiannau cyfreithlon y gweithiwr.

Fel y nodir uchod, rydym yn derbyn bod budd cyhoeddus dilys mewn gwybod bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd call. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod angen datgelu'r wybodaeth hon i gyflawni hynny; i'r gwrthwyneb, rydym yn credu bod hynny wedi'i gyflawni eisoes gan amodau'r Penderfyniad. O ystyried canlyniad ein ymarfer ymgynghori, rydym yn fodlon y byddai datgelu'r wybodaeth yn arwain at ymyrraeth ddiangen yn hawliau'r unigolion i breifatrwydd. O dan yr amgylchiadau hyn, ein casgliad yw na fyddai'n bosibl bodloni un o'r amodau yn Atodlen 2.